# Rheoleiddio niferoedd hysbysebion teledu a sut maent yn cael eu hamserlennu ar sianeli gwasanaeth cyhoeddus

Cais am dystiolaeth

**CAIS AM DYSTIOLAETH:**

Dyddiad cyhoeddi: 15 Gorffennaf 2022

Dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion: 07 Hydref 2022

# Cynnwys


## Adran

1. Trosolwg 1

2. Cais am dystiolaeth 2

## Atodiad

A1. Y fframwaith cyfreithiol perthnasol ar gyfer ystyried newidiadau i reolau COSTA 11

A2. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn 14

A3. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori 17

A4. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad 18

# 1. Trosolwg

### Pam rydym ni'n gofyn am dystiolaeth?

- Mae cyfyngiadau ar nifer yr hysbysebion y caniateir i unrhyw ddarlledwr teledu yn y DU eu dangos ar ei sianeli, a sut mae'r hysbysebion hynny'n cael eu hamserlennu. Cyflwynwyd y cyfyngiadau hyn er mwyn sicrhau nad yw gwylwyr yn cael eu llethu gan hysbysebion a bod ansawdd y profiad o wylio yn cael ei gadw.
- Ers 30 mlynedd a mwy, mae'r rheolau sy'n berthnasol i sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus (gwasanaethau Sianel 3 (ITV ac STV), Channel 4, Channel 5 ac S4C) wedi bod yn fwy llym na'r rheolau sy'n berthnasol i sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus.
- Mae newidiadau mawr wedi digwydd yn y ffordd y mae teledu'n cael ei ddosbarthu a'i wylio ers i'r rheolau gwahaniaethol hyn gael eu cyflwyno am y tro cyntaf, gan gynnwys ehangu sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus a chyflwyno gwasanaethau ffrydio ar-lein a theledu ar-alw.
- Gyda hyn oll yn gefndir, credwn ei bod yn bryd adolygu'r rheolau penodol hyn i sicrhau nad yw Ofcom yn rhoi baich rheoleiddio ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus sy'n ddiangen erbyn hyn o bosibl.

### Pa dystiolaeth rydym yn chwilio amdani ac erbyn pryd?

- Rydym yn awyddus i glywed gan randdeiliaid beth yw eu barn am y dadleuon dros gael gwared ar y rheolau llymach sy'n berthnasol i sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus neu eu cadw fel y maent.
- Rydym hefyd yn awyddus i gael tystiolaeth a gwybodaeth ynghylch sut y gallai dileu'r rheolau llymach hyn effeithio ar gynulleidfaoedd, darlledwyr, hysbysebwyr a'r broses gystadleuaeth.
- Y dyddiad cau ar gyfer ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth yw dydd Gwener 7 Hydref 2022. Byddwn yn asesu'r wybodaeth a gawn er mwyn ystyried a ddylem ymgynghori ar gynnig i ddileu'r rheolau llymach sy'n berthnasol i sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus o God Ofcom ar Amserlennu Hysbysebion Teledu.

# 2. Cais am dystiolaeth

## Cyflwyniad

2.1 Mae'r adran hon yn egluro pam ein bod yn ystyried newid y modd y rheoleiddir niferoedd hysbysebion teledu a sut maent yn cael eu hamserlennu ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus.[1]

2.2 Rydym yn gofyn am safbwyntiau gan randdeiliaid, a'r rheini wedi'u cefnogi gan dystiolaeth, i'n helpu i ystyried a oes cyfiawnhad i sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus barhau i fod yn rhwym wrth reolau llymach na sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

## Cefndir y rheoliad presennol

2.3 Mae faint o hysbysebion sydd ar y teledu yn y DU, a sut maent yn cael eu hamserlennu, wedi bod yn destun rheoleiddio erioed. Cyflwynwyd rheolau am y tro cyntaf pan lansiwyd darlledu teledu masnachol yn y 1950au.

### Rheolau'r Comisiwn Teledu Annibynnol ar Egwyliau Hysbysebu

2.4 Mae gwahanol reolau wedi bod yn berthnasol i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r rheini nad ydynt yn ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o ran faint o hysbysebion y gallant eu darlledu ers 1991, pan gyhoeddodd rhagflaenydd Ofcom, y Comisiwn Teledu Annibynnol (**ITC**), Reolau'r ITC ar Egwyliau Hysbysebu (**Rheolau'r ITC**),[2] yn rhannol er mwyn rhoi'r Gyfarwyddeb Teledu Heb Ffiniau (**Cyfarwyddeb TWF**) ar waith, a fabwysiadwyd yn 1989.

2.5 Yn ôl yr ITC, nid oedd ganddo gylch gwaith i sicrhau ansawdd sianeli nad oeddent yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac y dylid caniatáu iddynt gael yr hyblygrwydd mwyaf a ganiateir gan y Gyfarwyddeb TWF. Ar y llaw arall, roedd yn dweud fod ganddo ddyletswydd i ddiogelu ansawdd yr amgylchedd gwylio ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus.[3] Fodd bynnag, roedd yn cydnabod, dros amser, y gellid ystyried bod y gwahaniaeth rhwng y rheolau oedd yn berthnasol i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r darlledwyr nad oeddent yn ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn fantais gystadleuol annheg.[4]

---

[1] Defnyddir y diffiniadau allweddol canlynol yn y cais hwn am dystiolaeth: Mae "**darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus**" yn golygu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus fel y'u diffinnir isod – nid yw'n cynnwys y BBC na gwasanaethau rhaglenni teledu digidol lleol (L-DTPS); yn unol â'r diffiniad o "sianeli gwasanaeth cyhoeddus" yn COSTA, mae "**sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus**" yn cyfeirio at wasanaethau Sianel 3 (ITV ac STV), Channel 4, Channel 5 ac S4C – nid yw'n cynnwys sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus sy'n perthyn i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (e.e. ITV2 ac E4); mae "**sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus**" yn cyfeirio at bob sianel deledu fasnachol sydd wedi'i thrwyddedu, ac eithrio'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus – mae'n cynnwys gwasanaethau L-DTPS.

[2] Rheolau'r ITC ar Egwyliau Hysbysebu, Ionawr 1991.

[3] Rheolau'r ITC ar Egwyliau Hysbysebu, Ionawr 1991, tudalen 3, paragraff (e).

[4] Rheolau'r ITC ar Egwyliau Hysbysebu, Ionawr 1991, tudalen 3, paragraff (g).

2.6 Ers i Ofcom ysgwyddo rôl yr ITC, mae'r gwahaniaeth rhwng sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus a sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi aros o fewn rheolau Ofcom ar niferoedd hysbysebion – sydd ar hyn o bryd yng Nghod Ofcom ar Amserlennu Hysbysebion Teledu (**COSTA**).[5]

### Datganiad Ofcom yn 2011 ar reoleiddio faint o hysbysebion sydd ar y teledu

2.7 Ym mis Rhagfyr 2011, cyhoeddodd Ofcom ddatganiad ar adolygiad a gynhaliwyd gennym mewn perthynas â'r rheolau yn COSTA ar niferoedd hysbysebion teledu a sut roeddent yn cael eu hamserlennu.[6] Daethom i'r casgliad fod y gwahanol fuddiannau yr oedd y rheoliad i fod i'w gwasanaethu yn cael eu cyflwyno'n effeithiol drwy COSTA, fel y nodwyd ar y pryd, a phenderfynwyd peidio ag ymgynghori ar unrhyw newidiadau i'r rheolau. Fodd bynnag, dywedasom nad oedd y penderfyniad hwn yn ein rhwystro rhag ailystyried y mater hwn yn y dyfodol.

## Y rheolau presennol ar niferoedd hysbysebion teledu a sut maent yn cael eu hamserlennu

2.8 Mae'r rheolau presennol sy'n nodi faint o hysbysebion y gall darlledwr teledu eu darlledu, a lle y gellir eu hamserlennu, wedi'u nodi yn COSTA. Ymysg pethau eraill, mae COSTA yn gwahardd unrhyw sianel rhag dangos mwy na 12 munud o hysbysebion teledu mewn unrhyw awr gloc,[7] ac mae'n rhoi cyfyngiadau ar faint o hysbysebion y gall darlledwyr teledu eu dangos ar gyfartaledd, pa mor aml y gall hysbysebion darfu ar raglenni, a faint o amser y gall darlledwyr ei roi i slotiau telesiopa.[8]

2.9 Fel y nodir yn Ffigur 1, mewn ambell le, mae'r rheolau'n cyfyngu mwy ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus na sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

---

[5] Y Cod ar Amserlennu Hysbysebion Teledu:, Ofcom, 28 Ebrill 2022.

[6] Rheoleiddio ansawdd hysbysebu ar y teledu, Ofcom, 15 Rhagfyr 2011. Yn 2015, cynhaliodd Ofcom adolygiad arall o COSTA. Roedd yn rhoi pwyslais ar sut yr oedd Ofcom yn ymdrin â'r modd yr oedd rheolau lleoli hysbysebion yn cael eu gorfodi, yn hytrach na chynnig unrhyw newidiadau i reolau COSTA. Rhoddwyd newidiadau pellach ar waith ar 31 Rhagfyr 2020, ond dim ond adlewyrchu diwygiadau i'r fframwaith cyfreithiol oedd yn deillio o Brexit oedd y rhain: Codau darlledu Ofcom: Diwygiadau arfaethedig i'r Cod Darlledu a'r Cod ar Amserlennu Hysbysebion Teledu, Ofcom, 31 Rhagfyr 2020.

[7] Diffinnir **"hysbysebion teledu"** yn COSTA fel unrhyw fath o gyhoeddiad a ddarlledir boed yn gyfnewid am dâl neu gydnabyddiaeth debyg neu a ddarlledir at ddibenion hunanhyrwyddo gan gwmni cyhoeddus neu breifat neu fod dynol mewn cysylltiad â masnach, busnes, crefft neu broffesiwn er mwyn hyrwyddo nwyddau neu wasanaethau i'w cyflenwi, gan gynnwys rhwymedigaethau a hawliau eiddo disymud, yn gyfnewid am dâl.

[8] Diffinnir **"telesiopa"** yn COSTA fel cynigion uniongyrchol a ddarlledir i'r cyhoedd gyda'r bwriad o gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, gan gynnwys rhwymedigaethau a hawliau eiddo disymud, yn gyfnewid am dâl.

**Ffigur 1: Rheolau COSTA sy'n wahanol i sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus a sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus**

<table>
<tr><th></th><th>Sianeli Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus</th><th>Sianeli nad ydynt yn Sianeli Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus</th></tr>
<tr><td>Hysbysebion fesul awr ar gyfartaledd</td><td>Ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ni ddylai'r amser sy'n cael ei neilltuo ar gyfer hysbysebion teledu a slotiau telesiopa fod yn fwy na:<br>i) 7 munud yr awr ar gyfartaledd am bob awr o amser darlledu ar draws y diwrnod darlledu; a<br>ii) 8 munud yr awr ar gyfartaledd rhwng 18:00 a 23:00. (Rheol 4)</td><td>Ni chaiff sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus ddangos mwy na 12 munud ar gyfartaledd o hysbysebion teledu a slotiau telesiopa am bob awr o ddarlledu ar draws y diwrnod darlledu, ac ni chaiff mwy na 9 munud o hynny fod yn hysbysebion teledu. (Rheol 3)</td></tr>
<tr><td>Hyd egwyliau hysbysebu</td><td>Ni chaiff egwyliau hysbysebu yn ystod rhaglenni ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus fod yn fwy na 3 munud 50 eiliad, ac o'r rheini ni chaiff slotiau hysbysebu a thelesiopa fod yn fwy na 3 munud a 30 eiliad. (Rheol 5)</td><td>Nid oes unrhyw gyfyngiadau penodol ar hyd egwyliau hysbysebu yn ystod rhaglenni ar sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus.</td></tr>
<tr><td>Nifer yr egwyliau hysbysebu a ganiateir fesul rhaglen yn seiliedig ar hyd y rhaglen</td><td><table>
<tr><th>Hyd (munudau)</th><th>Nifer yr egwyliau</th></tr>
<tr><td>21 – 44</td><td>Un</td></tr>
<tr><td>45 – 54</td><td>Dau</td></tr>
<tr><td>55 – 65</td><td>Tri</td></tr>
<tr><td>66 – 85</td><td>Pedwar</td></tr>
<tr><td>86 – 105</td><td>Pump</td></tr>
<tr><td>106 – 125</td><td>Chwech</td></tr>
</table>(Rheol 16, Tabl 1)</td><td><table>
<tr><th>Hyd (munudau)</th><th>Nifer yr egwyliau</th></tr>
<tr><td>< 26</td><td>Un</td></tr>
<tr><td>26 – 45</td><td>Dau</td></tr>
<tr><td>46 – 65</td><td>Tri</td></tr>
<tr><td>66 – 85</td><td>Pedwar</td></tr>
<tr><td>86 – 105</td><td>Pump</td></tr>
<tr><td>106 – 125</td><td>Chwech</td></tr>
</table>(Rheol 16, Tabl 2)</td></tr>
<tr><td>Ffenestri telesiopa</td><td>Ar sianeli gwasanaeth cyhoeddus, dim ond rhwng 00:00 a 06:00 y ceir amserlennu ffenestri telesiopa.[9] (Rheol 7)</td><td>Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar pryd y ceir amserlennu ffenestri telesiopa ar sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus.</td></tr>
</table>

[9] Diffinnir **"ffenestri telesiopa"** yn COSTA fel nodweddion telesiopa estynedig sy'n para o leiaf 15 munud yn ddi-dor.

2.10 Mae'r rheolau presennol hyn yn y DU yn seiliedig ar y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol (**AVMSD**). Fel y mae fframwaith yr AVMSD yn ei ganiatáu, mae COSTA yn mynd y tu hwnt i ofynion sylfaenol yr AVMSD mewn sawl lle, gan gynnwys (fel y dangosir yn Ffigur 1) drwy gyfyngu ar gyfanswm yr hysbysebion y ceir eu dangos mewn un awr gloc i 12 munud, a drwy wahaniaethu rhwng sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus a sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus.[10]

2.11 Rhoddwyd yr AVMSD ar waith yn y DU gan Reoliadau Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol 2020 ar 1 Tachwedd 2020. Maent yn diwygio adran 319 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y **Ddeddf**), sy'n pennu amcanion y safonau sy'n sail i God Darlledu Ofcom yn ogystal â COSTA. Ers 1 Ionawr 2021, nid yw'r AVMSD ei hun yn berthnasol yn y DU rhagor[11]. Fodd bynnag, mae'r rheolau a oedd eisoes yn bodoli ac a gyflwynwyd i roi'r AVMSD ar waith, yn parhau i fod yn berthnasol, a byddant yn cael eu dehongli fel o'r blaen. O'r herwydd, mae rheolau cynnwys yr AVMSD a roddwyd ar waith cyn 1 Ionawr 2021, fel y rheini sy'n berthnasol i COSTA, yn dal mewn grym.

2.12 Gall Ofcom newid y rheolau a nodir yn COSTA yn unol â'i ddyletswydd statudol i osod, ac o bryd i'w gilydd, adolygu a diwygio safonau ar gyfer cynnwys rhaglenni teledu a radio (adran 319 o'r Ddeddf).

2.13 Mae rhagor o fanylion am y fframwaith cyfreithiol perthnasol ar gael yn Atodiad 1.[12]

## Adolygiad Ofcom o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus

2.14 Yn 2020/21, cynaliasom adolygiad manwl o ddyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, a ddaeth i ben ym mis Gorffennaf 2021, gyda set o argymhellion wedi'u cyhoeddi i'r Llywodraeth (**argymhellion ar gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus**),[13] yn galw am adnewyddu system y cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

2.15 Yn ein hargymhellion ar gyfer cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, dywedasom fod COSTA yn un o nifer o feysydd pwysig o reoleiddio hysbysebion sy'n effeithio ar gynaliadwyedd darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus masnachol.

2.16 Dywedasom y byddem yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch awgrymiadau yr oeddent wedi'u gwneud mewn ymateb i'n hymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2020, gan gynnwys

[10] Yn benodol, dim ond i 20% o'r cyfnod rhwng 06.00 a 18.00, ac 20 % o'r cyfnod rhwng 18.00 a 24.00, y mae Erthygl 23 o'r AVMSD presennol yn cyfyngu ar hysbysebu yn y fan a'r lle.
[11] Yn unol â'r newidiadau a wnaed gan Reoliadau Darlledu (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 a ddaeth i rym am 23:00 ar 31 Rhagfyr 2020.
[12] Nodwn fod y CMA, ar 29 Mehefin 2022, wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar newidiadau a gynigiwyd gan ITV i ymrwymiadau a gyflwynodd i'r CMA yn 2003 yn sgil uno Carlton a Granada ynghylch gwerthu ei amser hysbysebu. Mae'r ymrwymiadau'n ymwneud â manylion technegol sut mae ITV yn gwerthu munudau hysbysebu ar draws ei ranbarthau darlledu, sy'n wahanol i gyfanswm y munudau y caniateir i ITV eu gwerthu o dan reolau COSTA Ofcom.
[13] Argymhellion i Lywodraeth y DU ar ddyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus, Ofcom, 15 Gorffennaf 2021.

mewn perthynas â COSTA,[14] ac y byddem yn ystyried sut gallwn ni sicrhau cydbwysedd priodol rhwng buddiannau cynulleidfaoedd a chynaliadwyedd ariannol darlledwyr, gan gynnwys y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

2.17 Yn dilyn ein hargymhellion ar gyfer cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, rydym wedi ymgysylltu'n anffurfiol â nifer o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a darlledwyr nad ydynt yn ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gael gwybod beth yw eu safbwyntiau ar reolau presennol COSTA ar nifer yr hysbysebion a sut maent yn cael eu hamserlennu. Roedd hyn yn dangos gwahaniaeth sylweddol yn y farn rhwng y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r rheini nad ydynt yn ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn ogystal â rhywfaint o wahaniaeth rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu hunain.

2.18 Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cwestiynu'r rhesymeg sy'n parhau dros gael eu trin yn wahanol i sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn enwedig o ran faint o hysbysebion teledu sy'n cael eu caniatáu. I'r gwrthwyneb, mae'n amlwg o'n trafodaethau fod llawer o sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn gwrthwynebu mewn egwyddor gael gwared ar y rheolau llymach yn COSTA sy'n berthnasol i sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

## Datblygiadau yn y farchnad

### Arferion gwylio

2.19 Ers cyflwyno Rheolau'r ITC yn 1991, mae'r amrywiaeth o sianeli teledu yn y DU wedi cynyddu'n ddramatig. Yn hytrach na phedair sianel ddaearol a nifer fach o sianeli lloeren a chebl, erbyn hyn mae gwylwyr yn gallu cael mynediad at gannoedd o sianeli sy'n darparu amrywiaeth o gynnwys prif ffrwd ac arbenigol, llawer ohonynt yn cael eu hariannu'n gyfan gwbl neu'n rhannol drwy hysbysebion.[15] O ganlyniad, mae sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus bellach yn cyfrif am 44% o wylio teledu a ddarlledir, o'i gymharu â 25% ar gyfer sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael eu hariannu gan hysbysebion.[16]

2.20 Mae gan gynulleidfaoedd hefyd fynediad at ystod ehangach o opsiynau gwylio nag erioed o'r blaen, gydag amrywiaeth o wasanaethau ar-alw a ffrydio ar gael drwy apiau a'r rhyngrwyd agored, ac 17 miliwn o aelwydydd yn tanysgrifio i un neu ragor o wasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio (SVOD) yn Ch3 2020.[17] Wrth i wylwyr ddechrau treulio mwy

---

[14] Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr – Ymgynghoriad: Dyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus, Ofcom, 8 Rhagfyr 2020. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael yn https://www.smallscreenbigdebate.co.uk/statement, gan gynnwys ymatebion gan Channel 4, ITV ac STV, a oedd yn sôn yn benodol am reolau COSTA ar niferoedd hysbysebion teledu a sut maent yn cael eu hamserlennu.

[15] Erbyn hyn, mae BARB yn adrodd ar ffigurau gwylio 294 o sianeli gwahanol (https://www.barb.co.uk/resources/tv-facts/tv-since-1981/2021/reported/), ac mae llawer o sianeli llai eraill heb eu cynnwys.

[16] Cyfryngau'r Genedl 2021: Adroddiad Rhyngweithiol – Ofcom, Ofcom, 5 Awst 2021, Teledu a ddarlledir: Gwylio: Cyfran.

[17] Cyfryngau'r Genedl: DU 2021, Ofcom, 5 Awst 2021, tudalen 15.

o amser yn gwylio cynnwys ar-alw, mae gostyngiad wedi bod yn lefelau gwylio teledu traddodiadol a ddarlledir; roedd teledu byw yn cynrychioli llai na hanner yr holl wylio yn 2020, a dim ond 17% o'r gwylio oedd ymysg y rheini rhwng 16 a 24 oed.[18]

2.21 Mae rhai gwasanaethau (e.e. YouTube) yn cael eu cefnogi'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan hysbysebion, ond nid yw hyn yn wir am lawer o rai eraill, gan gynnwys rhai o'r gwasanaethau SVOD mwyaf fel Netflix a Disney+. Wrth i batrymau gwylio newid, mae faint o hysbysebion a ddangosir a'r amrywiaeth wedi newid hefyd. Er enghraifft, er bod gwahaniaethau mewn dulliau mesur yn ei gwneud hi'n anodd cymharu'n uniongyrchol, amcangyfrifwyd bod cyfanswm hyd yr hysbysebion fideo a welir gan oedolion 16-34 oed ar draws pob cyfrwng wedi bod yn gostwng ers 2016, a'i fod yn dal yn cynnwys hysbysebion ar deledu llinol yn bennaf.[19]

## Refeniw o hysbysebion

2.22 Mae refeniw o hysbysebion teledu wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ar ôl cyrraedd uchafbwynt yn 2015, mae gostyngiad wedi bod mewn refeniw hysbysebion teledu bob blwyddyn. £4.5bn ydoedd yn 2019, 17% yn llai nag yr oedd yn 2015.[20] Gostyngodd refeniw hysbysebion teledu ymhellach yn 2020 oherwydd y pandemig, cyn mynd i'r cyfeiriad arall yn sydyn yn 2021.[21] Fodd bynnag, mae rhai dadansoddwyr o'r farn nad yw hyn yn golygu newid yn y duedd.[22]

2.23 Ar yr un pryd â'r newidiadau hyn o ran refeniw hysbysebion teledu, mae cynnydd cyflym wedi bod mewn hysbysebu ar-lein. O ran gwerth i gyd gyda'i gilydd, yn 2011, hysbysebu ar-lein oedd ar y brig yn hytrach na hysbysebu ar y teledu. Erbyn 2019, roedd hysbysebu ar y teledu yn werth llai na 30% o refeniw hysbysebu ar-lein.[23] Does dim modd cymharu llawer o fathau o hysbysebion ar-lein yn uniongyrchol â hysbysebion teledu, ond fideo ar-lein yw'r fformat arddangos mwyaf ar gyfer hysbysebion, ac un o'r rhai sy'n tyfu gyflymaf. Ar hyn o bryd, mae fideo ar alw darlledwyr yn cyfrif am ddim ond un rhan o dair o wariant fideo ar-lein lle mae'r hysbyseb yn rhan o'r ffrwd fideo ei hun.[24][25]

2.24 Rydym yn nodi bod Freevee, sy'n eiddo i Amazon, yn darparu cynnwys sy'n cael ei ariannu gan hysbysebion a bod Netflix wedi dweud fod ganddo gynnig sy'n cael ei ariannu gan

[18] Cyfryngau'r Genedl: Adroddiad Rhyngweithiol 2021, Ofcom, 5 Awst 2021, Cyfanswm Fideo: Gwylio.
[19] Cost, value and how we should plan today's TV, Thinkbox, 28 Ionawr 2020.
[20] Cyfryngau'r Genedl: DU 2021, Ofcom, 5 Awst 2021, Ffigur 3.2.
[21] £1 billion more invested in TV advertising in 2021, Thinkbox, 9 Mawrth 2022.
[22] Rydym yn nodi bod ITV wedi rhybuddio buddsoddwyr y gallai ffactorau geowleidyddol a macroeconomaidd effeithio ar refeniw hysbysebu yn 2022 (ITV warns of ad slump but is on track with new streaming brand launch, The Guardian, 11 Mai 2022) ac mae JPMorgan Cazenove yn rhagweld y bydd yr hysbysebu'n arafu yn 2022 a 2023 (An Xceptional opportunity - Modelling ITVX, returns and Sensitivities, JPMorgan Cazenove, 20 Mehefin 2022).
[23] Cyfryngau'r Genedl: DU 2021, Ofcom, 5 Awst 2021, Ffigur 3.2.
[24] Hysbysebion sy'n rhan o'r ffrwd fideo yw hysbysebion sy'n cael eu dangos yn syth cyn, yn ystod neu ar ôl cynnwys fideo, yn hytrach na hysbysebion fideo sy'n cael eu dangos mewn mannau eraill ar wefannau, apiau neu ffrydiau cyfryngau cymdeithasol.
[25] 2021 IAB UK a PwC Digital – Astudiaeth o Wariant ar Hysbysebion Digidol, 2022.

hysbysebion ar y gweill.[26] Os bydd cynigion fel y rhain yn llwyddiannus, mae'n debyg y byddant yn arwain at ragor o newidiadau o ran gwariant hysbysebion fideo.

2.25 Wrth i wariant sy'n gysylltiedig â gwylio a hysbysebu barhau i symud ar-lein, mae darlledwyr wedi ymateb drwy lansio nifer o gynhyrchion newydd i wella eu harlwy hysbysebu ar draws teledu a fideo ar-alw, gan ganiatáu mwy o bersonoleiddio a thargedu yn ogystal â gwell mesuriadau.[27] Mae'r cynigion hyn yn dal i esblygu, a byddant yn rhoi dulliau mwy soffistigedig i hysbysebwyr optimeiddio a mesur eu gwariant ar hysbysebion, gan gynyddu gwerth hysbysebion teledu a fideo ar-alw unigol o bosibl.

### Arwyddocâd ar gyfer rheoleiddio yn y dyfodol

2.26 Yng ngoleuni'r datblygiadau yn y farchnad a amlinellir uchod, rydym wedi nodi tri rheswm posibl pam y dylid dileu'r rheolau COSTA llymach sy'n berthnasol i sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus:

- gan ystyried y newid sylweddol mewn arferion gwylio ers dechrau'r 1990au, efallai na fydd modd cyfiawnhau'r rheolau COSTA llymach sy'n berthnasol i sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar y sail bod eu hangen i ddiogelu ansawdd y profiad o wylio;
- gallai dileu'r rheolau COSTA llymach sy'n berthnasol i sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus helpu cynaliadwyedd ariannol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus;[28] a
- gallai'r rheolau COSTA perthnasol fod yn ystumio cystadleuaeth, yn enwedig o gofio bod sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi hen ennill eu plwyf yn y DU.

## Adran 9 o'r Cod Darlledu

2.27 Ers 1991, mae sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus a sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus hefyd wedi elwa o lacio rheolau sy'n eu galluogi i gynhyrchu incwm o raglenni, fel y rheini sy'n berthnasol i nawdd rhaglenni a gosod cynnyrch. Er enghraifft, yn 2011 codwyd y gwaharddiad ar osod cynnyrch ar gyfer rhaglenni teledu wedi'u gwneud ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU. Roedd hyn yn galluogi darlledwyr i gael taliad yn gyfnewid am ddangos brandiau mewn rhaglenni, yn amodol ar reolau penodol yn Adran 9 o'r Cod Darlledu.

2.28 Rydym wedi clywed gan rai darlledwyr bod y modd y mae Ofcom yn cymhwyso'r rheolau yn hyn o beth yn rhy gyfyngol, ac felly'n cyfyngu ar yr incwm y gallant ei gynhyrchu o

[26] Netflix confirms an ad-supported tier is really, actually happening, The Verge, 24 Mehefin 2022.
[27] Er enghraifft, mae Channel 4 a Sky wedi llofnodi cytundebau gyda The Trade Desk ar gyfer prynu hysbysebion rhaglenni ar eu gwasanaethau, ac mae ITV, Channel 4 a Sky wedi dod at ei gilydd i lansio CFlight, adnodd sy'n galluogi hysbysebwyr i ddeall cyrhaeddiad eu hysbysebion fideo ar-alw a llinol gyda'i gilydd.
[28] Ar 29 Mehefin 2022, fe wnaethom gyhoeddi ein hadroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol ar Drwyddedu Sianel 3 a 5: https://www.ofcom.org.uk/cymru/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/psb/channel-3-and-channel-5-relicensing. Yn yr adroddiad, rydym yn rhoi ein barn ar allu'r rhai sy'n dal trwyddedau Sianel 3 a 5 i gyfrannu at gyflawni dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ar gost sy'n gynaliadwy'n fasnachol, dros gyfnod y drwydded am y ddeng mlynedd nesaf (yn dechrau yn 2025). Rydym yn cyfeirio at reolau COSTA yn ein dadansoddiad o gynaliadwyedd masnachol.

drefniadau o'r fath. Maent wedi dweud y gallai canllawiau cliriach ar y rheolau ynghylch nawdd a lleoli cynnyrch eu helpu, gan roi eglurder ynghylch cyfleoedd i fonateiddio cynnwys (e.e. drwy raglenni wedi'u hariannu gan hysbysebion) a chynyddu refeniw.

2.29 Mewn ymateb i hyn, rydym yn cynnal ymchwil ymysg cynulleidfaoedd i gael gwell dealltwriaeth o agweddau at gyfeiriadau masnachol mewn rhaglenni, gan gynnwys y rheini sy'n deillio o drefniadau noddi a lleoli cynnyrch. Gan ddibynnu ar ganlyniadau'r gwaith ymchwil hwn, rydym yn bwriadu ymgysylltu â darlledwyr ar wahân, gyda'r nod o ddiweddaru ein canllawiau ar Adran 9 o'r Cod Darlledu. Gall hyn arwain at gyfleoedd cyllido cynnwys newydd i ddarlledwyr.

## Cais am dystiolaeth

2.30 Rydym yn ceisio deall a allai'r rheolau COSTA sy'n berthnasol i sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn unig fod yn ystumio cystadleuaeth, ac a fyddai cysoni'r rheolau ar gyfer sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus â'r rheolau ar gyfer sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, fel y disgrifir uchod, yn cyfrannu at gynaliadwyedd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a/neu'n cael effaith negyddol ar gynulleidfaoedd.

2.31 Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth hyd yn hyn sy'n dangos nad yw COSTA yn addas i'r diben yn gyffredinol bellach, ac felly nid ydym yn ystyried cynnal adolygiad cyffredinol o'r rheolau i gyd.[29] Fodd bynnag, gallai rheolau COSTA sy'n gosod gofynion llymach ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus nag ar sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus fod yn faich rheoleiddiol nad yw'n angenrheidiol rhagor, o ystyried y newidiadau yn y farchnad a drafodwyd uchod, ac felly fe ellid eu dileu.

2.32 Felly, rydym yn gofyn am dystiolaeth a safbwyntiau gan randdeiliaid i'n helpu i ystyried a oes cyfiawnhad dros y rheolau yn COSTA sy'n berthnasol i sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn unig. Yn benodol, rydym yn awyddus i glywed gan randdeiliaid – gan gynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, y rheini nad ydynt yn ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, hysbysebwyr a thai gwerthu, yn ogystal â grwpiau cynulleidfaoedd a defnyddwyr – am y dadleuon o blaid ac yn erbyn y newidiadau posibl a ganlyn i COSTA:

- **Dileu Rheol 4**, sy'n berthnasol i sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn unig, a **diwygio Rheol 3** i fod yn berthnasol i bob sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus a sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn gyfartal. Golygai hyn y byddai'r holl sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu'r un cyfyngiadau – ni fyddent yn cael dangos mwy na 12 munud ar gyfartaledd o hysbysebion teledu a slotiau telesiopa am bob awr o ddarlledu ar draws y diwrnod darlledu, ac ni fyddai mwy na 9 munud o hynny'n cael bod yn hysbysebion teledu.

[29] Rydym yn nodi bod y Llywodraeth wedi ymgynghori yn 2019 ynghylch a ddylid cynnal adolygiad o funudau hysbysebu yn y DU cyn gweithredu'r AVMSD newydd yn y DU, a daethpwyd i'r casgliad nad oedd wedi cael tystiolaeth bendant i gyfiawnhau i wneud hynny (Audiovisual Media Services, Government response to public consultations on the government's implementation proposals, 30 Mai 2019).

- **Dileu Rheol 5** fel nad oes hyd mwyaf yn berthnasol rhagor i egwyliau hysbysebu a ddarlledir yn ystod rhaglenni ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus.
- **Diwygio Rheol 16** fel bod sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn rhwym wrth yr un cyfyngiadau â sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus o ran nifer yr egwyliau mewnol a ganiateir mewn rhaglenni.

2.33 Er ein bod yn canolbwyntio ar reolau COSTA sy'n rheoleiddio niferoedd ac amlder hysbysebion, rydym yn croesawu unrhyw safbwyntiau sydd gan randdeiliaid ynghylch Rheol 7, sy'n dweud mai dim ond rhwng 00:00 a 06:00 y ceir amserlennu ffenestri telesiopa ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

2.34 **Wrth ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth, rhowch dystiolaeth lle gallwch chi ynghylch effeithiau posibl (cadarnhaol neu negyddol) y newidiadau posibl a ddisgrifir uchod ar gynulleidfaoedd, darlledwyr, y sector hysbysebu a chystadleuaeth yn y farchnad deledu.**

2.35 Rydym hefyd yn awyddus i gael safbwyntiau a thystiolaeth gan bob ymatebydd ynghylch sut mae hysbysebion teledu a ddarlledir yn debygol o ddatblygu dros y bum i ddeg mlynedd nesaf, gyda neu heb y newidiadau posibl uchod i COSTA.

## Y camau nesaf

2.36 Y dyddiad cau ar gyfer ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth yw dydd Gwener 7 Hydref 2022.

2.37 Rydym yn bwriadu asesu'r wybodaeth a gawn er mwyn ystyried a ddylem ymgynghori ar gynnig lle dylai'r rheolau ar niferoedd a threfniadau amserlennu hysbysebion teledu fod yn berthnasol i bob sianel deledu sy'n cael ei thrwyddedu gan Ofcom fel y'i gilydd.

2.38 Gall gwybodaeth o'r cais hwn am dystiolaeth hefyd fod yn sail i waith ymchwil posibl i gynulleidfaoedd y byddwn yn ei wneud fel rhan o'r broses o ystyried y rheolau COSTA perthnasol.

2.39 Yn ddiweddarach eleni, ein bwriad yw cyhoeddi'r ymatebion i'r cais hwn am dystiolaeth, a byddwn yn amlinellu'r camau nesaf.

# A1. Y fframwaith cyfreithiol perthnasol ar gyfer ystyried newidiadau i reolau COSTA

## Deddf Cyfathrebiadau 2003 (y "Ddeddf")

A1.1 Mae gan Ofcom nifer o ddyletswyddau statudol cyffredinol sy'n berthnasol i hysbysebu ar y teledu, ac mae'r rhain wedi'u nodi yn y Ddeddf. Fel y nodwyd uchod, mae'r Ddeddf hefyd yn adlewyrchu fframwaith AVMSD yr UE mewn perthynas â rheolau mwy penodol sy'n ymwneud â hysbysebu ar y teledu.

### Dyletswyddau statudol cyffredinol Ofcom o dan y Ddeddf

A1.2 Mae Adran 3(1) o'r Ddeddf yn darparu mai prif ddyletswydd Ofcom wrth gyflawni ei swyddogaethau fydd hyrwyddo buddiannau:

(a) dinasyddion mewn perthynas â materion cyfathrebu; a

(b) defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol.

A1.3 Mae Adran 3(2) yn nodi materion y mae'n rhaid i Ofcom eu sicrhau wrth gyflawni ei swyddogaethau, gan gynnwys:

a) bod ystod eang o wasanaethau teledu a radio ar gael ledled y Deyrnas Unedig sydd (wrth eu hystyried gyda'i gilydd) o ansawdd uchel ac wedi'u cynllunio i apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau; a

b) cynnal amrywiaeth ddigonol o ddarparwyr gwasanaethau teledu a radio gwahanol.

A1.4 Os bydd Ofcom yn gweld bod unrhyw un o'i ddyletswyddau cyffredinol yn gwrthdaro â'i gilydd, rhaid iddo sicrhau bod y gwrthdaro'n cael ei ddatrys yn y ffordd orau yn ei farn ef yn yr amgylchiadau (adran 3(7)).

A1.5 Wrth gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 3(1)(b) i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr, mae'n rhaid i Ofcom hefyd ystyried buddiannau'r defnyddwyr hynny mewn perthynas â dewis, pris, ansawdd gwasanaeth a gwerth am arian. Yn ôl adran 3(3) ac adran 3(4) mae'n rhaid i Ofcom ystyried y canlynol ym mhob achos wrth gyflawni'r dyletswyddau a nodir yn adran 3(1):

i) yr egwyddorion sy'n mynnu bod gweithgareddau rheoleiddio yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur ac yn gyson, a'u bod ond yn targedu'r achosion hynny lle mae angen cymryd camau; a

ii) unrhyw egwyddorion eraill sydd ym marn Ofcom yn cynrychioli arferion gorau.

A1.6 Rhaid i Ofcom hefyd ystyried, pan fydd Ofcom o'r farn bod hynny'n berthnasol, amrywiaeth o ffactorau eraill, gan gynnwys:

i) pa mor ddymunol yw hyrwyddo'r gwaith o gyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig;

ii) pa mor ddymunol yw hyrwyddo cystadleuaeth mewn marchnadoedd perthnasol;

iii) anghenion pobl ag anableddau, yr henoed a'r rheini sydd ar incwm isel; barn defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, a'r cyhoedd yn gyffredinol; a

iv) gwahanol ddiddordebau pobl sy'n byw mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig, y gwahanol gymunedau ethnig yn y DU a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.

A1.7 O dan adran 6 o'r Ddeddf, rhaid i Ofcom barhau i adolygu'r modd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau gyda'r bwriad o sicrhau nad yw rheoleiddio'n golygu:

a) rhoi beichiau diangen; neu

b) cynnal beichiau sydd bellach yn ddiangen.

## Dyletswyddau statudol Ofcom sy'n benodol i hysbysebion teledu o dan y Ddeddf

A1.8 O dan adran 319(1) o'r Ddeddf, mae'n ddyletswydd ar Ofcom i osod, ac o bryd i'w gilydd, adolygu a diwygio safonau ar gyfer cynnwys rhaglenni sydd i'w cynnwys mewn gwasanaethau teledu a radio, fel y mae Ofcom yn credu sydd orau er mwyn sicrhau'r amcanion o ran safonau a nodir o dan adran 319(2) o'r Ddeddf.

A1.9 Yr amcanion safonol sy'n ymwneud â hysbysebu ac sy'n berthnasol at ddibenion y Cais hwn am Dystiolaeth yw adran 319(2)(i) o'r Ddeddf, sy'n mynnu *y cydymffurfir â rhwymedigaethau rhyngwladol y Deyrnas Unedig mewn cysylltiad â hysbysebion a gynhwysir mewn gwasanaethau teledu a radio*[30] ac y cydymffurfir ag adran 319(2)(ha)[31], sy'n mynnu bod gofynion unrhyw gyfarwyddebau gan yr UE, a ddaeth i rym yn union cyn 31 Rhagfyr 2020 (**"diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu"**), mewn perthynas â hysbysebion a gynhwysir mewn gwasanaethau teledu a radio. Byddai'r olaf yn cynnwys y rheolau o dan yr AVMSD gan eu bod ar waith ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

A1.10 Rhaid cynnwys y safonau a bennir gan Ofcom o dan adran 319 o'r Ddeddf mewn un neu ragor o godau, ac mae COSTA yn un o'r codau hynny. Wrth osod neu ddiwygio cod fel hwn, rhaid i OFCOM roi sylw i bob un o'r materion canlynol, yn benodol ac i'r graddau y gwêl hynny'n berthnasol er mwyn sicrhau amcanion y safonau:

a) maint y niwed neu dramgwydd sy'n debygol o gael ei achosi drwy gynnwys unrhyw fath penodol o ddeunydd mewn rhaglenni'n gyffredinol neu mewn rhaglenni o fath penodol;

b) maint a chyfansoddiad tebygol y gynulleidfa bosibl i raglenni sydd wedi'u cynnwys mewn gwasanaethau teledu a radio'n gyffredinol, neu mewn gwasanaethau teledu a radio o fath penodol;

[30] Adran 319(2)(i) o'r Ddeddf.
[31] Rhoddwyd i mewn gan Reoliadau Darlledu (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019/224.

c) disgwyliadau tebygol y gynulleidfa o ran natur cynnwys rhaglen a'r graddau y gellir dod â natur cynnwys rhaglen i sylw aelodau posibl o'r gynulleidfa;

d) y tebygolrwydd y bydd unigolion nad ydynt yn ymwybodol o natur cynnwys rhaglen yn dod ar draws y cynnwys hwnnw'n anfwriadol, drwy eu gweithredoedd eu hunain;

e) y dymunoldeb o sicrhau bod cynnwys gwasanaethau'n adnabod pa bryd y ceir newid sy'n effeithio ar natur gwasanaeth y mae rhai'n ei wylio neu'n gwrando arno, ac yn benodol, newid sy'n berthnasol i gymhwyso'r safonau sydd wedi'u gosod dan yr adran hon; ac

f) y dymunoldeb o gadw annibyniaeth y rheolaeth olygyddol dros gynnwys rhaglen.

A1.11 Mae Adran 321 o'r Ddeddf yn nodi amcanion safonau pellach ar gyfer hysbysebion, nawdd a gosod cynnyrch. Mae Adran 321(4) yn mynnu'n benodol bod gan Ofcom gyfrifoldeb cyffredinol ynghylch hysbysebion a dulliau o hysbysebu a noddi, mewn perthynas â gwasanaethau rhaglenni. Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb hwn, caiff Ofcom gynnwys amod mewn unrhyw drwydded y mae'n ei rhoi ar gyfer unrhyw wasanaeth sy'n ei alluogi i osod gofynion mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion hynny sy'n mynd y tu hwnt i ddarpariaethau cod safonau Ofcom.

A1.12 O'r herwydd, mae trwyddedau'r Ddeddf Darlledu a roddir gan Ofcom yn cynnwys amod sy'n mynnu bod y sawl sy'n dal y drwydded yn cydymffurfio â chod safonau Ofcom o dan adran 319 o'r Ddeddf, gyda "Cod Safonau" yn cael ei ddiffinio fel: *y cod neu'r codau sy'n rheoli safonau ar gyfer cynnwys rhaglenni, gan gynnwys safonau ac ymarfer wrth hysbysebu ac wrth noddi rhaglenni sydd wedi'u cynnwys mewn gwasanaethau teledu a radio, fel y cânt eu llunio ac o bryd i'w gilydd eu diwygio gan Ofcom, yn unol ag Adran 319, 322 ac unrhyw rwymedigaeth ryngwladol a bennir mewn cyfarwyddyd a roddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 335 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau.*

A1.13 Mae adran 322 yn darparu pwerau atodol i Ofcom, yn benodol mewn perthynas â hysbysebu, gydag is-adran 322(1) yn darparu bod y drefn reoleiddio ar gyfer yr holl wasanaethau rhaglenni teledu yn cynnwys amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n darparu'r gwasanaeth gydymffurfio â phob cyfarwyddyd a roddir iddo gan Ofcom o ran y materion a grybwyllir yn is-adran (2).

A1.14 O dan Adran 322(2), mae materion o'r fath yn cynnwys:

a) uchafswm yr amser sydd i'w roi i hysbysebion mewn unrhyw awr neu gyfnod arall;

b) y cyfnod byrraf sy'n gorfod mynd heibio rhwng unrhyw ddau gyfnod a roddir i hysbysebion;

c) nifer y cyfnodau o'r fath sydd i'w caniatáu mewn unrhyw raglen neu mewn unrhyw awr neu ddiwrnod; a

d) gwahardd hysbysebion o ran benodol o wasanaeth trwyddedig.

A1.15 Mae COSTA yn nodi'r rheolau y mae'n rhaid i ddarlledwyr teledu sy'n cael eu trwyddedu gan Ofcom gydymffurfio â nhw o ran niferoedd, amserlennu a chyflwyno hysbysebion.

# A2. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A2.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn 5pm ddydd Gwener 7 Hydref 2022.

A2.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr o https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/ Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A2.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol arall, a fyddech chi cystal â'i anfon dros e-bost i CostaRules@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno.

A2.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, a theitl yr ymgynghoriad wedi'i farcio arnynt:

Content Policy
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA

A2.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad fod yn fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau QuickTime, wmv neu DVDs; neu
- gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle cynnal arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A2.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol).

A2.7 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.

## Cyfrinachedd

A2.8 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu

gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.

A2.9 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu'ch ymateb.

A2.10 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A2.11 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, gallwn rannu copi o'ch ymateb ag adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan – yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ar gyfer materion post, a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ar gyfer pob mater arall.

A2.12 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A2.13 Yn ddiweddarach eleni, ein bwriad yw cyhoeddi'r ymatebion i'r cais hwn am dystiolaeth, a byddwn yn amlinellu'r camau nesaf.

A2.14 Gallwch gofrestru i gael diweddariadau i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A2.15 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 3.

A2.16 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydym yn rheoli ein hymgynghoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A2.17 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Corporation Secretary
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
London SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A3. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori

## Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

### Cyn yr ymgynghoriad

A3.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol gyda phobl a chyrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr er mwyn cael syniad a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

### Yn ystod yr ymgynghoriad

A3.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A3.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.

A3.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A3.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosibl yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif unigolyn y dylid cysylltu ag ef os oes gennych farn am y modd rydym yn cynnal ein hymgynghoriadau.

A3.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

### Ar ôl yr ymgynghoriad

A3.7 Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion bob hyn a hyn yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

# A4. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb sydd yn eich barn chi yn gyfrinachol, gan roi'ch rhesymau

Dim ☐

Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐

Ymateb cyfan ☐

Sefydliad ☐

Rhan o'r ymateb ☐

Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? ____________________________________________

Os nad ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu enw'ch sefydliad gael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom barhau i gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol nad yw'n datgelu'r wybodaeth benodol nac yn golygu bod modd eich adnabod)?

## DATGANIAD

Rwyf yn cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni dyletswyddau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw'ch ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw                                Llofnod (os darperir copi papur)